# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Plas Gwyn**

**Plas Gwyn**
**Llanrhystud**
**SY23 5BY**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

26/10/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Plas Gwyn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Tilmala Healthcare Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 16 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 8 Medi 2022 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a gânt. Caiff y bobl eu cefnogi gan dîm o staff sy'n dangos dealltwriaeth eithriadol ac sydd mor ofalgar, y maent wedi meithrin cydberthnasau rhagorol â nhw. Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr yn rhedeg y gwasanaeth i safon uchel iawn, a dywedodd y bobl a'r staff wrthym eu bod yn gwerthfawrogi eu cymorth a'u harweiniad hynod effeithiol.

Mae'r amgylchedd yn gartrefol ac yn gyfforddus, gydag ystafelloedd cymunedol a safleoedd a gaiff eu cynnal a'u cadw'n dda er mwyn i'r bobl allu rhyngweithio â'i gilydd, eu hymwelwyr a'r staff.

Mae'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth, eu cynrychiolwyr a'r staff yn adnabod yr Unigolyn Cyfrifol yn dda ac yn ei barchu. Mae'r wybodaeth o'u hymweliadau Rheoliad 73 a'u harchwiliadau mewnol yn llywio ei adolygiad o ansawdd y gofal a gynhelir bob chwe mis.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael gofal rhagorol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cael eu parchu fel unigolion. Dywedodd cynrychiolydd wrthym *The staff are so caring, they treat her with respect and they really listen to her".* Caiff y bobl eu cefnogi i wneud y pethau sydd o bwys iddynt, megis cynnal annibyniaeth a meithrin cydberthnasau. Ceir diwylliant hynod greadigol yn y gwasanaeth. Cawsom wybod am unigolyn nad oedd â'r gallu rhagor i ymweld â rhywle o bwys arwyddocaol iddynt, felly aeth y staff i'r lle eu hunain fel bod modd iddynt gael sgyrsiau ystyrlon a manwl gyda'r person. Mae'r rhyngweithio rhwng y bobl a'r holl dîm o staff yn dangos dealltwriaeth a chysur. Dywedodd unigolyn wrthym *"This place is special, excellent and they look after me so well".* Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth sydd â 'Chynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg, a gall y staff gyfathrebu'n fedrus drwy'r Gymraeg neu'r Saesneg, neu drwy'r ddwy iaith ar yr un pryd fel mae'r bobl yn mynnu.

Mae'r bobl yn cael eu diogelu gan fod prosesau recriwtio a hyfforddiant yn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth cywir. Mae'r gweithwyr gofal yn cael sesiwn sefydlu a chyfleoedd datblygu parhaus ac maent yn cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r staff yn diogelu'r bobl rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso ac maent yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau i godi pryderon. Mae'r bobl a'u cynrychiolwyr yn gwybod sut i godi unrhyw bryderon ac maent yn ymddiried yn y rheolwr. Dywedodd cynrychiolydd wrthym "*Whatever the issue is, they will sort it out".*

Mae'r adeilad yn gartrefol ac mae'r bobl yn personoli eu hystafelloedd eu hunain fel y mynnant. Mae'r ardaloedd cymunedol yn gyfforddus, yn olau ac yn fawr. Mae'r bobl yn defnyddio'r gwahanol ardaloedd sydd ar gael iddynt i wneud y pethau y maent yn eu mwynhau, er enghraifft, sgwrsio â'i gilydd, darllen, mwynhau'r golygfeydd ac ymgymryd â gweithgareddau a gynlluniwyd. Mae'r tiroedd yn hygyrch a chroesawgar a gall y bobl wneud pethau sy'n bwysig iddynt megis mwynhau'r awyr iach. Mae'r unigolion hefyd yn gwneud pethau i'w cadw mor iach â phosibl, megis mynd am dro neu arddio.

Mae gan y bobl lais ac maent yn cyfrannu at y ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymwneud â'r broses o weithredu'r cartref o ddydd i ddydd ac yn cynnwys y bobl wrth sicrhau ansawdd. Mae'r prosesau llywodraethu yn canolbwyntio ar ddatblygu'r gwasanaeth drwy ddefnyddio gwybodaeth o archwiliadau. Mae'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal yn nodi meysydd i'w gwella ar ôl ymgynghori â'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y cartref.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn fodlon iawn ar safon uchel y gofal a'r cymorth a gânt. Mae'r cymorth hynod effeithiol yn galluogi'r bobl aros mor annibynnol â phosibl o fewn y gwasanaeth, ac i barhau i fod yn aelodau gweithredol yn eu cymuned leol. Mae'r gweithwyr gofal ymgysylltiol yn adnabod y bobl yn dda, yn deall eu hanghenion unigryw a'u dewisiadau unigol. Gwelsom sawl enghraifft o ryngweithio cadarnhaol a llawn dealltwriaeth rhwng y bobl a'r tîm cyfan o staff. Dywedodd person sy'n byw yn y gwasanaeth wrthym, *"This place has been brilliant, you won't get any complaints from me".* Mae'r staff angerddol yn parchu'r bobl ac yn gweithio yn unol â'u  hanghenion a'u dewisiadau unigol. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym, *"I love it here, we're like a family and I love the residents".* Mae cynrychiolwyr y bobl hefyd yn gadarnhaol am y gofal a'r cymorth yn y gwasanaeth; dywedodd un wrthym *"It's a care home and they all really do care, they go the extra mile".*

Caiff y bobl, eu cynrychiolwyr, y gweithwyr gofal a gweithwyr proffesiynol eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu a chynnal y cynlluniau personol. Mae gan y darparwr gynlluniau personol cryno a hynod effeithiol wedi eu teilwra ar gyfer pob unigolyn. Mae'r cynlluniau hyn yn cefnogi'r staff i ddeall y bobl yn well, gan eu galluogi i gyflawni eu canlyniadau ar yr un pryd. Mae'r rheolwr a'r dirprwy reolwr yn adolygu cynlluniau bob mis ac yn sicrhau bod y wybodaeth yn gywir ac yn gyfredol. Mae'r ddogfennaeth yn dangos tystiolaeth dda bod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn cael eu cynnwys. Siaradodd gweithiwr proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref yn gadarnhaol am y gwasanaeth, a thynnodd sylw at ddull gweithredu'r staff.

Mae systemau hynod effeithiol ar waith i wneud yn siŵr bod meddyginiaeth yn cael ei rhoi'n briodol i'r bobl. Mae gan y gwasanaeth ddull gweithredu neilltuol tuag at ddeall sgil effeithiau meddyginiaethau penodol, a lleihau'r angen amdanynt. Cawsom wybod am unigolyn nad oedd angen meddyginiaeth benodol bellach arno am ei fod yn teimlo'n hapus yn y gwasanaeth, a siaradodd pawb a oedd yn rhan o hyn am yr effaith gadarnhaol y mae hyn wedi'i gael ar ei fywyd.

Mae gan y gwasanaeth raglen o weithgareddau wedi'i chynllunio, ac mae'r bobl yn mwynhau ymgymryd â'u diddordebau'n rheolaidd fel darllen, gwylio'r teledu, chwarae gemau bwrdd a rhyngweithio â'i gilydd. Ceir ymdeimlad o deulu yn y gwasanaeth. Mae'r bobl, eu cynrychiolwyr a'r staff yn cymryd diddordeb gwirioneddol yn ei gilydd. Mae'r bobl yn gwneud diodydd a byrbrydau i'w gilydd. Gwelsom unigolion hefyd yn cefnogi ei gilydd adeg prydau bwyd a thrwy gydol y diwrnod. Mae'r rheolwr yn gweithio'n greadigol er mwyn helpu'r bobl i gynnal eu cysylltiadau cymdeithasol ac i barhau i fod yn aelodau gweithredol yn eu cymuned leol.

Mae lefelau staffio digonol ar waith er mwyn diwallu anghenion y bobl a'u cefnogi i gyflawni eu nodau. Gwelsom lawer o ryngweithio diwyd, pwyllog ac amyneddgar a chyfeillgar yn ystod yr arolygiad. Dywedodd cynrychiolydd wrthym *“I can honestly say I’ve never come across a staff team with so much empathy and understanding for people”.*

## Yr Amgylchedd

Mae'r darparwr wedi gwneud buddsoddiad sylweddol i'r adeilad ers yr arolygiad diwethaf. Caiff yr amgylchedd ei gynnal a'i gadw i safon uchel gan dîm cadw tŷ a thîm cynnal a chadw dynodedig. Caiff yr ardaloedd cymunedol mewnol ac allanol eu defnyddio'n llawn gan y bobl i gymdeithasu â'i gilydd, y staff a gyda'u hymwelwyr. Mae'r bobl yn symud o gwmpas y cartref yn rhydd heb unrhyw gyfyngiadau. Mae'r gegin yn hwb i'r bobl fwynhau treulio amser gyda'i gilydd, i sgwrsio ac yfed paneidiau o de a choffi. Mae'r bobl wedi personoli eu hystafelloedd unigol â'u lluniau, ornamentau a dodrefn. Mae gan y bobl luniau ohonynt eu hunain y tu allan i'w hystafelloedd i'w helpu i ddod o hyd i'w ffordd o amgylch y cartref. Mae'r bobl yn gwerthfawrogi'r gerddi mawr a chroesawgar, a gaiff eu defnyddio'n llawn i gymdeithasu, ymarfer corff ac ymlacio.

Mae'r cartref yn olau ac yn ffres; mae lluniau o'r ardal leol yn helpu'r bobl i ymgysylltu â'u cymuned. Mae'r darparwr wedi cwblhau'r rhan fwyaf o'r gwaith o'r rhaglen uwchraddio helaeth, gyda'r rhan fwyaf o'r ystafelloedd wrthi'n cael eu haddurno, ffenestri newydd yn cael eu gosod, y grisiau'n cael eu tynnu, ystafell ymolchi newydd wedi ei gosod a lifft newydd wedi ei osod. Cawsom wybod bod camau yn cael eu cymryd yn gyflym mewn ymateb i unrhyw faterion a bod y darparwr yn sicrhau bod cyfarpar ar gael i'r bobl eu defnyddio sy'n cynnal eu hurddas a'u hannibyniaeth.

Cwblheir archwiliadau Iechyd a Diogelwch rheolaidd o'r eiddo yn gyson. Mae'r profion cyfarpar diogelwch tân yn gyfredol ac mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad wedi'u teilwra at yr unigolyn ac yn ddefnyddiol mewn argyfwng.

Mae'r bobl yn mwynhau amrywiaeth o brydau cartref ffres. Gall unigolion ddewis i fwyta gyda'i gilydd yn gymdeithasol neu yn dawel ar eu pen eu hunain. Dywedodd cynrychiolydd wrthym *“They go out and get what she wants and she enjoys that”.* Mae'r camau o'r ymweliad iechyd amgylcheddol diweddaraf yn cael eu cymryd gan y darparwr.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau da iawn ar waith ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn rhan o'r prosesau ar gyfer rhedeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd, ac mae'r bobl a'r staff yn eu disgrifio fel unigolyn cefnogol sy'n hawdd mynd ato. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym *“They are really good and we are well supported by the owners. The RI takes people out and really knows them well”.* Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau, ac yn ymgynghori â'r bobl, eu cynrychiolwyr a'r staff. Caiff y wybodaeth hon, a'r adborth gan archwiliadau mewnol eu defnyddio i lywio'r Adolygiad o Ansawdd y Gofal a gynhelir bob chwe mis.

Mae'r rheolwr yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r bobl ac yn eu hadnabod yn dda. Mae'r bobl wrth wraidd y gwasanaeth, a chawsom wybod bod y diwylliant sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn dechrau gyda'r rheolwr. Dywedodd cynrychiolydd wrthym *“[Manager] is a one off, he’s so attentive to the individual*”. Mae'r gweithwyr gofal yn disgrifio'r rheolwr fel un gofalgar, cefnogol, sy'n barod ei gymwynas, dywedodd un wrthym "*I feel so valued and appreciated by the manager”.*

Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio'n adeiladol ar themâu penodol bob dau fis ond dywedodd y staff eu bod yn gwerthfawrogi'r ffaith fod y rheolwr ar gael o ddydd i ddydd. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym. *“Supervision is good, we discuss my needs and if I need anything but I’d go straight to the manager if I had an issue and he’d help me sort it out”.* Dangosodd trafodaethau â'r staff bod dealltwriaeth dda o'r trefniadau diogelu. Mae gweithdrefnau ar waith i gefnogi arferion da, ac mae gan y staff ddealltwriaeth ddigonol o bolisïau allweddol.

Cynhelir gwiriadau cyn cyflogi cyn i gyflogeion newydd ddechrau gweithio. Mae’r rhain yn cynnwys geirdaon, gwiriadau hawl i weithio a gwiriadau Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae staff newydd yn cael sesiynau sefydlu manwl a hyfforddiant parhaus gorfodol, sy'n benodol i'r person, er mwyn diwallu anghenion y bobl. Dywedodd gweithiwr gofal wrthym *“Training is a good refresher and keeps me on top of things and I really enjoy the E:Learning”*. Mae'r rheolwr yn cefnogi'r staff i gwblhau ‘Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol’ ac i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae niferoedd digonol o staff gofal ar gael i ddiwallu anghenion y bobl ac mae'r staff yn cymryd eu hamser i ryngweithio'n sensitif â nhw mor aml â phosibl. Mae'r holl dîm o staff yn cymryd eu hamser i ddod i adnabod y bobl ac i feithrin cydberthnasau llawn ymddiriedaeth â nhw.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 04/12/2023